# Archifdy Sir Gâr
# **Cyfarwyddyd Handlo Da**

**Cyfarwyddyd Handlo Da**
Fel bod ein harchifau yn parhau yn rhai y gellir mynd atynt yn weddol rhwydd, mae'n hanfodol nad ydynt yn cael eu cam-drin gan ein darllenwyr na chwaith gan aelodau staff. Mae cam-drin dogfennau yn achosi difrod mawr gyda'r effeithiau yn rhai y gellir eu gweld ar unwaith (e.e. plygu, sgyffio a thorri ac yn y blaen), neu'n rhai all ddod i'r amlwg yn sydyn, er i nifer o flynyddoedd fod wedi mynd heibio. Gallwch helpu i sicrhau nad yw ein dogfennau'n cael eu cam-drin trwy ddilyn yr ychydig reolau syml a ganlyn:

**Canllawiau cyffredinol:**
- Sicrhewch os gwelwch yn dda, bod eich dwylo yn lân ac yn sych.
- Tynnwch eitemau fesul un oddi ar y silffoedd.
- Defnyddiwch eich dwy law i gario cyfrolau mawr neu focsys a defnyddiwch droli pan fo angen hynny.
- Os bydd yn rhaid stacio eitemau, gwnewch hynny'n gymesur ac yn daclus.
- Peidiwch â rhoi eitemau ar y llawr os gwelwch yn dda
- Sicrhewch nad yw eitemau roddir ar y byrddau neu ar drolis yn hongian dros yr ochr.
- Defnyddiwch gyfarpar hwylus bob amser, h.y. clustog llyfr, cynhalwyr a phwysau ac yn y blaen.
- Tynnwch ymaith bob llinyn a gorchudd cyn darllen yr eitemau.
- Pan yn defnyddio eitemau bychan cofiwch eu rhoi hwy mewn amlen Melinex a pheidiwch â tynnu oni bai fod hynny'n hollol angenrheidiol. Ni chaniateir tynnu ffotograffau o'u hamlenni.
- Dywedwch wrth aelod staff os gwelwch yn dda, os bydd unrhyw eitemau angen eu trwsio.
- Defnyddiwch synnwyr cyffredin -os byddwch angen cymorth : gofynnwch.

**Dogfennau fflat:**
- Sicrhewch os gwelwch yn dda bod eich dwylo'n lân ac yn sych.
- Lle bynnag bo hynny'n bosibl defnyddiwch stribedi di-asid i ddilyn llinellau'r testun.
- Peidiwch â gorwedd a phwyso ar y dogfennau.
- Sicrhewch nad yw eitemau yn hongian dros fyrddau'r ystafell ymchwilio.
- Defnyddiwch gynhaliwr (h.y. papur cryf) i droi tudalennau dogfennau bregus.
- Peidiwch â thynnu dogfennau allan o'r amlenni Melinex oni bai fod hynny'n angenrheidiol, os gwelwch yn dda.
- Codwch eitemau bregus trwy afael mewn dwy groes gongl yn ofalus

**Llyfrau a chyfrolau:**
- Sicrhewch, os gwelwch yn dda, bod eich dwylo'n lân ac yn sych.
- Defnyddiwch gynhalwyr a dalwyr llyfrau priodol bob amser.
- Peidiwch â gwlychu blaen eich bysedd i droi'r tudalennau.
- Ceisiwch beidio cyffwrdd wyneb y tudalennau.
- Os ydych wedi handlo 'red rot', golchwch eich dwylo wedyn, os gwelwch yn dda.
- Os yw câs llyfr yn rhydd, trefnwch hwy fel pe baent yn gyfan cyn eu hagor, os

gwelwch yn dda.

- Cadwch bob eitem sy'n rhydd neu wedi dod yn rhydd yn yr un lle o fewn y llyfr neu'r gyfrol, os gwelwch yn dda.
- Peidiwch â llungopïo na sganio os nad yw'r eitem yn agor yn rhwydd i 180 gradd.

**Mapiau neu gynlluniau:**

- Sicrhewch, os gwelwch yn dda, bod eich dwylo'n lân ac yn sych.
- Rhowch ddigon o le i chwi eich hun a sicrhewch nad yw'r ddogfen yn hongian tros ochr y bwrdd yn yr ystafell ymchwilio.
- Defnyddiwch bwysau bob amser wrth i chwi ddadblygu neu ddadrowlio eitemau.
- Peidiwch â defnyddio nerth i wneud unrhyw ddogfen yn fflat os na fydd yn barod i wneud hynny.
- Storiwch yn fflat os yn bosibl.
- Pan yn tresio eitemau, sicrhewch eich bod yn rhoi tudalen blastig rhwng y ddogfen a'r papur, os gwelwch yn dda.
- Os bydd raid rowlio'r map, rowliwch ef o amgylch canol cadarn.

**Ffotograffau a chardiau post:**

- Sicrhewch fod eich dwylo yn lân ac yn sych os gwelwch yn dda.
- Defnyddiwch fenig cotwm pan yn handlo ffotograffau heb eu gorchuddio, platiau gwydr, lluniau negatif neu albwm o ffotograffau.
- Pan yn estyn eitemau bychain cofiwch eu gosod hwy mewn amlenni Melinex a pheidiwch â'u tynnu allan oni bai fod hynny'n hollol angenrheidiol.
- Os oes raid tynnu unrhyw eitem allan o'i amlen, defnyddiwch fenig bob amser.
- Byddwch yn arbennig o ofalus i beidio plygu'r delweddau.
- Ceisiwch osgoi cyffwrdd â'r wyneb – gafaelwch mewn ffotograffau ger eu hymylon bob amser.

**Diolch i chwi.**